

Amserlen diwygiedig ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth

Tachwedd 2018

Ar 9 Hydref 2018 cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol i ystyried a chyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 14 Rhagfyr 2018.

Yn eu cyfarfod ar 13 Tachwedd, cytunodd y Rheolwyr Busnes i gais gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i ymestyn y dyddiad ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r ddau bwyllgor tan 4 Ionawr 2019.

